Eitem Agenda 5 **26 Mawrth 2010** **WNC 11.10**

EIN PWRPAS A CHYFEIRIAD: CYNLLUN CORFFORAETHOL COMISIWN COEDWIGAETH CYMRU 2010-13

Pwrpas

1. Cyflwyno fersiwn diweddaraf Cynllun Corfforaethol Comisiwn Coedwigaeth Cymru 2010-13 i'r Pwyllgor Cenedlaethol i'w gymeradwyo.

Cefndir

2. Cyhoeddwyd ein Cynllun Corfforaethol, *Ein pwrpas a chyfeiriad,* ym mis Ebrill 2009, yn dilyn lansio'r strategaeth goetir ddiwygiedig, *Coetiroedd i Gymru.* Yn y cyfnod yn arwain at gynhyrchu'r Cynllun hwn, cytunasom droi at fodel o gynllun corfforaethol i'w gyflwyno'n raddol dros dair blynedd. Roedd yn seiliedig ar ein deg rhaglen gorfforaethol, yn nodi ein gweithgareddau'n fanwl ar gyfer y flwyddyn gyfredol, ac ar ffurf amlinell a phennawd ar gyfer y blynyddoedd canlynol. Felly, bydd *Ein pwrpas a chyfeiriad*, yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol, er mwyn cynnwys unrhyw ddatblygiadau i'n rhaglenni corfforaethol, yn ogystal â materion cyfundrefnol ehangach. Hwn yw'r cyntaf o'r diweddariadau hyn. Yn ogystal, bydd crynodeb diwygiedig yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol, yn rhannol er mwyn dangos i staff a rhanddeiliaid fod cynllunio corfforaethol yn broses ddeinamig a pharhaus.

Cyd-destun:

3. Mae'r cynllun corfforaethol diwygiedig yn dilyn yr un drefn gyffredinol â chynllun 2009-12 a dangosir unrhyw newidiadau i'r testun mewn glas.

4. O dan bob adran rhaglen gorfforaethol yn y cynllun, ychwanegwyd dau bennawd newydd:

   - *Ein gwaith parhaus* - yn nodi'r hyn sy'n cael ei wneud gennym o'r naill flwyddyn i'r llall ;
   - *Yr hyn a wnaethom yn 2009/10* – yn dangos peth o'r gwaith a gafodd ei ddwyn ymlaen gennym yn y flwyddyn flaenorol yn ogystal â manylu, amlinellu a chynnig penawdau ar gyfer gweithgareddau yn 2010/11 – 2012/13. Mae hyn yn helpu i greu cysylltiad cliriach rhwng perfformiad a darpariaeth yn y dyfodol.

5. Roedd y Bwrdd Rheoli wedi cymeradwyo un rhaglen gorfforaethol, Rhaglen 8 – Hyrwyddo pren a datblygu'r sector coedwig, yn ddigon cynnar i hyn gael ei gynnwys yn y cynllun corfforaethol hwn. Mae cynlluniau corfforaethol eraill naill ai'n cael eu datblygu neu'n disgwyl cymeradwyaeth derfynol gan y Bwrdd Rheoli, ac felly ni chawsant eu cynnwys yn llawn. Fodd bynnag, mae pob adran rhaglen gorfforaethol yn y rhaglen gorfforaethol wedi'i diweddaru i raddau, yn seiliedig ar weithgareddau

cyfredol a'r gweithrediadau hynny yn y cynllun gweithredu ar gyfer *Coetiroedd i Gymru*, lle rydym wedi cytuno i gymryd rhan arweiniol.

6. Cytunwyd ar fesurau Perfformiad a Busnes ym mis Mawrth 2009 am gyfnod o dair blynedd (mae nodyn esboniadol ynglŷn â dulliau yn Atodiad 1). Dangosir nifer o linellau sylfaen, yn ogystal â mân newidiadau a wnaed i'r testun er mwyn ei wneud yn haws ei ddeall. Eto, dangosir y newidiadau hyn mewn glas.

7. Dangosir incwm a gwariant lefel-uchel y cynllun busnes sy'n berthynol i'r rhaglenni corfforaethol, er mwyn adlewyrchu'r gwaith a wnaed gennym yn 2009/10 i adolygu ein cyfrifon i ddod â chynllunio busnes a chynllunio corfforaethol yn nes at ei gilydd.

Y Camau Nesaf

8. Yn dilyn sylwadau a chymeradwyaeth gan y Pwyllgor Cenedlaethol, cyhoeddir y Cynllun llawn yn electronig a chynhyrchir y crynodeb atodol yn electronig ac ar bapur i'w dosbarthu i'r holl staff ym mis Ebrill, mewn da bryd ar gyfer yr holl gyfarfodydd staff sydd i fod i gael eu cynnal ym mis Mai.

Goblygiadau Ariannol

9. Nid yw cyhoeddi'r diweddariad hwn yn golygu unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol pellach, ac eithrio costau cyhoeddi ac argraffu'r crynodeb.

Risgiau

10. Mae'r risgiau fel a ganlyn :-

Elfen Risg	Math o Risg: Economaidd Enw Da Amg. a Chymdeithasol	Effaith / Tebygolrwydd Sgôr (rhwng 1 a 5)	Sgôr Risg (ExT)	Rheolaethau
Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys (ond nid yn gyfan gwbl) *Coetiroedd i Gymru*	Pob un	4x1	4	Cynhyrchu Cynllun Corfforaethol a'i ddiweddaru'n flynyddol; rhaglen ar gyfer cynhyrchu rhaglenni corfforaethol a safbwyntiau polisi
Methiant i drosglwyddo pwrpas a chyfeiriad y sefydliad i'r staff a rhanddeiliaid allanol	Pob un	3x1	3	Cyfathrebiad clir o'r Cynllun Corfforaethol, gan gynnwys pob cyfarfod staff
Methiant i ymateb i argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru	Pob un	4x1	4	Y broses o alinio strategaeth a chynllunio corfforaethol a busnes, ymateb i argymhellion
Ystodau Sgorio Risgiau Cyffredinol: 0 – 5 Dibwys / 6 – 10 Isel / 11 – 20 Cymedrol / 21 – 25 Uchel				

Cyfathrebu

11. Trosglwyddir y diweddariad yn unol â'n cynllun cyfathrebu, gyda fersiwn llawn ar y we a chrynodeb ar gael ar y we ac ar bapur. Anfonir copi o'r crynodeb at bob aelod o'r staff, yn ogystal ag at randdeiliaid allweddol.

Argymhelliad

12. Bod y Pwyllgor Cenedlaethol yn nodi'r datblygiadau i'r broses cynllunio corfforaethol ac yn cymeradwyo'r Cynllun i'w fabwysiadu o 1 Ebrill 2010.

Sue Ginley a Clive Thomas
Y Tîm Datblygu Polisi a Rhaglenni
Mawrth 2010

Atodiad 1

RHEOLI PERFFORMIAD STRATEGOL

Cefndir

Mewn cyfarfodydd cynharach o'r Pwyllgor Cenedlaethol, cafwyd ymholiadau ynglŷn â natur targedau corfforaethol tair-blynedd Comisiwn Coedwigaeth Cymru sy'n seiliedig ar ein mesurau Perfformiad cytunedig.

Mae rheoli perfformiad sefydliadau sy'n cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus fel disgyblaeth wedi bod yn destun llawer o drafodaeth academaidd a chyfarwyddyd gwleidyddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r drafodaeth a'r cyfarwyddyd hyn yn gymhleth, ond y duedd fu i ganolbwyntio o amgylch dau brif fater:

- Yn gyntaf, swyddogaeth mesurau a thargedau perfformiad; y brif drafodaeth fu'r tyndra rhwng swyddogaeth mesurau perfformiad fel arf i ganolbwyntio ar feysydd strategol perfformiad a chanolbwyntio ar gyflawni targedau fel diben ar ei ben ei hun, gyda'r holl risgiau cysylltiol o `hapchwarae' a chanlyniadau gwrthnysig;

- Yn ail, y tyndra rhwng mesurau perfformiad a thargedau sy'n canolbwyntio'n bennaf ar agweddau ar gylch gwaith y sefydliad. Yma, mae modd rheoli cyflawniad yn llwyr yn erbyn y dyhead i gyflawni canlyniadau cymdeithasol sydd yn anaml dan reolaeth uniongyrchol unrhyw sefydliad yn benodol.

Ymagwedd Comisiwn Coedwigaeth Cymru – targedau 2009/12

Fel rhan o'r ymdrech i gael gwell ymgyfuniad strategol rhwng gweithgareddau Comisiwn Coedwigaeth Cymru a pholisi coedwigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn unol â *Choetiroedd i Gymru*, cytunodd y Pwyllgor Cenedlaethol ym mis Mawrth 2009 ar ddulliau strategol i reoli perfformiad. Mae hyn yn arddangos ymgyfuniad da ac mae eisoes wedi golygu mwy o ganolbwyntio ar rai meysydd anodd eu cyflawni y tynnwyd sylw atynt gan y mesurau perfformiad, e.e. creu coetiroedd, cael gwell amrywiaeth o rywogaethau ac adfer coetiroedd brodorol.

Trafodaeth

Yn amodol ar yr ymagwedd hon, mae'r gofyniad i ystyried canolbwyntio cynyddol ac adeiladol ar fynd i'r afael â mesurau perfformiad strategol, na ellir cyflawni rhai ohonynt ond wrth weithio gydag eraill a dylanwadu arnynt, yn wir ganlyniad yn hytrach na chyflawni'r targedau ynddynt eu hunain.

Yr ymagwedd gwbl gyferbyniol fyddai mabwysiadu targedau allbwn yn bennaf, a'r rheini'n cael eu rheoli'n llwyr gan y sefydliad. Yn achos Comisiwn Coedwigaeth Cymru, byddai hyn yn arwain at orbwysleisio targedau y gellid eu cyflawni'n bennaf trwy reoli'r ystâd goedwig gyhoeddus, lle mae rheolaeth a dylanwad yn gryf. Byddai dylanwadu ar reoli coetiroedd eraill neu ar ganlyniadau economaidd-gymdeithasol neu amgylcheddol ehangach yn golygu gormod o risg, pe bai'r brif ystyriaeth ar reoli a chyflawni targedau.

Casgliadau

Mae'r Bwrdd Rheoli'n ffyddiog fod y dulliau a fabwysiadwyd gennym yn briodol ar gyfer sefydliad sydd â gwir ddiddordeb mewn arddangos ei berthnasedd o ran helpu i gael canlyniadau ehangach i'r llywodraeth. Fodd bynnag, rhaid i ni fod yn barod i fod yn ddoeth o ran rheoli a rhaid i ni dderbyn taw canolbwyntio ac ymgyfuno'n strategol yw'r gwir nod yn hytrach na chyflawni pob targed yn llwyr.